

2019 Rhif (Cy.)

2019 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren)
i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint)
(Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a
Cherddwyr Dros Dro)
2019

The A55 Trunk Road (Junction 36
(Warren Interchange) to the
Wales/England Border, Flintshire)
(Temporary Prohibition of
Vehicles, Cyclists and Pedestrians)
Order 2019

Gwnaed 2 Medi 2019

Made 2 September 2019

Yn dod i rym 10 Medi 2019

Coming into force 10 September 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2019 a daw i rym ar 10 Medi 2019.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 36 (Warren Interchange) to the Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2019 and it comes into force on 10 September 2019.

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2) neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 10 Medi 2019 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor. Gwaharddiadau

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwys

6. Nid yw’r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

2 Medi 2019

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

2. In this Order:

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984 Act(2) or in connection with the works giving rise to this Order;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 on 10 September 2019 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4, and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration of this Order is 12 months.

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

2 September 2019

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a’r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a’r Llysoedd 2013 (p. 22), ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) hyd at ffin Cymru/Lloegr.
2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).
3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55 (CYFFORDD 36 (CYFNEWIDFA WARREN) I FFIN CYMRU/LLOEGR, SIR Y FFLINT) (GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A CHERDDWYR DROS DRO) 2019

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, o Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) i Ffin Cymru/Lloegr yn Sir y Fflint.

Effaith y Gorchymyn fydd gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o'r A55 a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn weithredol dros nos (20:00 - 05:00 o'r gloch) o 10 Medi 2019 hyd 7 Hydref 2019 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Caiff cerbydau â llwythi annormal eu gwahardd rhag defnyddio'r llwybrau eraill a chânt eu parcio dros nos mewn cilfannau hyd nes bod y system rheoli traffig wedi ei symud ymaith. Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn hysbysu llwythi llydan am y cyfyngiad.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos tua 2 wythnos cyn unrhyw waith a ailamserlennir.

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Pedestrians

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 36 (Warren Interchange) to the Wales/England border.
2. The entire length of the eastbound entry slip road at Junction 36 (Warren Interchange).
3. The entire length of the eastbound entry slip road at Junction 36A (Broughton).

THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 36 (WARREN INTERCHANGE) TO THE WALES/ENGLAND BORDER), FLINTSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES, CYCLISTS AND PEDESTRIANS) ORDER 2019

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road from Junction 36 (Warren Interchange) to the Wales/England Border in the County of Flintshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services or for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative routes are described in Schedule 2 to this Notice.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight (20:00 hours until 05:00 hours) from 10 September 2019 until 7 October 2019 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Vehicles with abnormal loads will be prohibited from using the alternative routes and will be parked up into laybys overnight until the traffic management is removed. North Wales Police will notify wide loads of the restriction.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed approximately 2 weeks before any rescheduled work.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1

Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbyffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) hyd at ffin Cymru/Lloegr.
2. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren).
3. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36A (Brychdyn).

ATODLEN 2

Llwybrau eraill

1. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n llai na 15 troedfedd o uchder sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 36 fydd ar hyd yr A5104 tua'r gogledd-ddwyrain a'r A483 tua'r de hyd at Gyffordd 38 (Cyfnewidfa Posthouse) i ailymuno â'r A55. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.
2. Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n fwy na 15 troedfedd o uchder sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 36 fydd ar hyd yr A5104 tua'r de-orllewin, yr A550 tua'r de, y B5373 tua'r de-ddwyrain, y B5102 tua'r dwyrain a'r A483 tua'r gogledd hyd at Gyffordd 38 (Cyfnewidfa Posthouse) i ailymuno â'r A55. I'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r gorllewin.
3. Y llwybrau eraill, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, ar gyfer traffig tua'r dwyrain sy'n dymuno ymuno â'r gefnffordd wrth Gyffordd 36 a 36A fydd ar

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

SCHEDULE 1

Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists, Pedestrians

1. The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 36 (Warren Interchange) to the Wales/England border.
2. The entire length of the eastbound entry slip road at Junction 36 (Warren Interchange).
3. The entire length of the eastbound entry slip road at Junction 36A (Broughton).

SCHEDULE 2

Alternative routes

1. The alternative route for vehicles under 15ft in height travelling eastbound from Junction 36 will be via the A5104 north eastbound, A483 southbound to Junction 38 (Posthouse Interchange) to re-join the A55. Vice versa for westbound traffic.
2. The alternative route for vehicles over 15ft in height travelling eastbound from Junction 36 will be via the A5104 south westbound, A550 southbound, B5373 south eastbound, B5102 eastbound, A483 northbound to Junction 38 (Posthouse Interchange) to re-join the A55. Vice versa for westbound traffic.
3. The alternative routes, which will be signed accordingly, for eastbound traffic wishing to join the trunk road at Junctions 36 and 36A will be via the A550, B5373, B5102, A483, A5104 and B5125.

hyd yr A550, y B5373, y B5102, yr A483, yr A5104
a'r B5125.